Museums Libraries & Archives

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

ANNOG DYSGU – RHESTR WIRIO FANWL
Adran 1 POBL: *Darparu cyfleoedd dysgu mwy effeithiol*

Ydych chi a'ch cydweithwyr neu bartneriaid eisoes wedi defnyddio'r rhestr wirio fer i gael trosolwg o'ch sefydliad?

Yn awr defnyddiwch y rhestr wirio fanwl hon i archwilio'ch gwaith yn fanylach. Bydd y rhestr wirio hefyd yn eich cynorthwyo i ddarparu tystiolaeth sy'n cefnogi'ch honiadau.

Mae gan yr egwyddor allweddol POBL bum elfen ac mae gan bob un o'r rhain ddwy adran:

- **Cwestiynau i ganfod i ba raddau yr ydych yn dilyn arfer gorau yn y maes hwn**
- **Cwestiynau i ganfod a oes gennych chi dystiolaeth o ganlyniadau ac effaith y prosesau hyn**

Awgrymwn eich bod yn canolbwyntio ar yr adran hon ac yn gweithio trwyddi fel tîm yn fanwl, cyn symud ymlaen i gynllunio camau gweithredu. Ceisiwch fod mor onest â phosibl yn eich atebion.

SYLWER: NI FYDD YR HOLL ENGHREIFFTIAU O DYSTIOLAETH YN BERTHNASOL I BOB AMGUEDDFA, ARCHIF A LLYFRGELL

Museums Libraries & Archives

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

ANNOG DYSGU – RHESTR WIRIO FANWL
Adran 1 POBL: *Darparu cyfleoedd dysgu mwy effeithiol*

1.1 Ydych chi'n cysylltu ac ymgynghori ag amrediad eang o bobl i ddatblygu cyfleoedd dysgu?

Camau Gweithredu		***Ydym***	***Wedi dechrau***	***Na***
1.1.1 Ydych chi'n nodi pwy ydy'ch defnyddwyr[1] trwy gasglu data arnynt a dadansoddi'u proffil?	Casglu data			
	Dadansoddi proffil			
1.1.2 Ydych chi'n ymgynghori â defnyddwyr er mwyn cael syniad o'u gwerthoedd, yr hyn sy'n eu hysgogi, eu hoff bethau a'u profiadau?				
1.1.3 Ydych chi'n datblygu, treialu ac addasu cyfleoedd dysgu[2] mewn ymgynghoriad â defnyddwyr?	Datblygu			
	Treialu			
	Addasu			

[1] Mae'r defnyddwyr yn cynnwys, er enghraifft, ymwelwyr â'ch amgueddfa, eich archif neu'ch llyfrgell (go iawn a rhithwir); pobl yn gwneud ymholiadau; myfyrwyr ac academyddion; aelodau o'ch corff llywodraethol.

[2] e.e. rhaglenni Sgiliau Gwybodaeth, sesiynau blasu TGCh, grwpiau darllen, dosbarthiadau nos, ysgolion dydd, gweithdai, cynadleddau, seminarau, digwyddiadau i ddechreuwyr, diwrnodau agored, adnoddau dysgu ar y we, llyfrau, catalogau, sgyrsiau/ymweliadau, sioeau teithiol, arddangosfeydd.

Tystiolaeth o ganlyniadau a phrosesau arfer da	*Ydym*	*Na*	Meysydd i'w Gwella
Ydych chi: ➢ wedi llunio proffil o'ch defnyddwyr cyfredol? ➢ wedi defnyddio amrywiol ddulliau sy'n briodol i faint y sefydliad wrth ymgynghori â defnyddwyr a chasglu a dadansoddi data arnynt[3] ? ➢ wedi treialu cyfleoedd dysgu gyda defnyddwyr? ➢ wedi addasu cyfleoedd dysgu mewn ymateb i adborth gan ddefnyddwyr? *Ydych chi'n gwybod a yw defnyddwyr:* ➢ yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'ch bod yn ymgynghori â hwy?			

[3] e.e. sgyrsiau gyda defnyddwyr, llyfrau defnyddwyr, grwpiau hanes lleol, grwpiau ffocws, paneli defnyddwyr, darparwyr sgiliau sylfaenol, arolygon defnyddwyr, mudiadau cyfeillion, eiriolwyr cynulleidfaoedd, trafodaethau gyda grwpiau cymunedol, data ymholiadau ynghylch boddhad, cyswllt â phobl mewn llety preswyl, ysgolion arbennig, canolfannau dydd, hosteli, carchardai, ar y strydoedd, grwpiau trafod dros yr e-bost, holiaduron post, adborth ar-lein ac ati.

Rhestr Wirio Fanwl
Adran 1 POBL: *Darparu cyfleoedd dysgu mwy effeithiol*
1.2 Ydych chi'n darparu cyfleoedd i bobl ddysgu?

Camau Gweithredu		***Ydym***	***Wedi dechrau***	***Na***
1.2.1 Ydych chi'n darparu adnoddau a gweithgareddau dysgu sy'n ystyried anghenion pobl[4] ?	Gweithgar-eddau			
	adnoddau			
1.2.2 Ydych chi'n darparu adnoddau a gweithgareddau dysgu y mae pobl yn eu mwynhau ac sy'n eu cyfoethogi ?	Mwynhau			
	Cyfoethogi			
1.2.3 Ydych chi'n ategu dysgu ffurfiol sy'n seiliedig ar y cwricwlwm[5]?				
1.2.4 Ydych chi'n cydnabod, gwerthfawrogi a dathlu cyflawniadau dysgu?	Cydnabod			
	Gwerthfawr-ogi			
	Dathlu			
1.2.5 Ydych chi'n creu ac yn cynnal y galw am eich cyfleodd dysgu cyfredol ac awch am ragor?				

[4] O ran oed, grŵp cymdeithasol a diwylliannol, maint eu gwybodaeth, arddulliau dysgu gwahanol, unrhyw anawsterau dysgu, iaith, llythrennedd neu rifedd, nam corfforol neu ar y synhwyrau.
[5] Gan gynnwys cwricwla ysgol, prifysgol a choleg

Tystiolaeth o ganlyniadau a phrosesau arfer da	*Ydym*	*Na*	Meysydd i'w Gwella
Ydych chi: ➢ wedi cynllunio gweithgareddau ac adnoddau dysgu i adlewyrchu amrediad o arddulliau dysgu[6]? ➢ wedi llunio gweithgareddau dysgu a datblygu adnoddau sy'n apelio at amrywiaeth o anghenion dysgu? ➢ wedi cynllunio'ch adnoddau i adlewyrchu'r cwricwla[7]? ➢ wedi gwerthfawrogi a dathlu cyflawniadau/cyraeddiadau pobl? *Ydych chi'n gwybod a yw defnyddwyr:* ➢ yn teimlo bod gwasanaethau ac adnoddau'r amgueddfa/llyfrgell/archif yn hawdd i'w defnyddio? ➢ yn gallu cael gafael ar yr wybodaeth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt yn y fformat a'r cyfrwng sydd orau ganddynt? ➢ yn ystyried bod y gweithgareddau a'r adnoddau[8] yn addas ar gyfer eu hanghenion cynhwysiant/mynediad amrywiol? ➢ yn teimlo'n hyderus i ddefnyddio'r amgueddfa, yr archif neu'r llyfrgell a'u gweithgareddau a'u hadnoddau i gefnogi'u dysgu? ➢ yn teimlo'n llawn cymhelliant ac anogaeth o ganlyniad i ddefnyddio'ch gwasanaethau yn ogystal â theimlo eu bod yn cael eu cynnwys? ➢ yn dweud sut y bydd y profiad/sgiliau newydd/hyder newydd yn eu helpu/ wedi eu helpu i symud ymlaen i ragor o ddysgu, hyfforddiant a/neu gyflogaeth? ➢ wedi penderfynu parhau â'u dysgu[9]? ➢ yn teimlo bod eu disgwyliadau wedi'u hymestyn? ➢ sy'n ymwneud â rhaglenni dysgu ffurfiol wedi canfod bod eu lefelau cyrhaeddiad wedi gwella? ➢ sy'n ymwneud ag addysgu yn teimlo bod eu rhaglenni wedi cael cefnogaeth?			

[6] Mae pobl yn mwynhau dysgu mewn ffyrdd gwahanol, e.e. gweledol (dysgu trwy weld); clywedol (dysgu trwy wrando, trafod); cyffyrddol/cinesthetig (dysgu trwy wneud, cyffwrdd, symud).

[7] e.e. mae sgiliau gwybodaeth wedi'u gwreiddio yn y cwricwlwm; mae llythrennedd gwybodaeth yn cael ei ystyried yn sgil allweddol a/neu'n sgil dysgu gydol oes; mae gennych ran yn natblygiad cyrsiau a'r broses adolygu

Rhestr Wirio Fanwl
Adran 1 POBL: ***Darparu cyfleoedd dysgu mwy effeithiol***

1.3 Ydych chi'n ehangu'r amrediad o gyfleoedd dysgu ar gyfer cynnwys defnyddwyr newydd ac amrywiol ?

Camau Gweithredu		***Oes / Ydym***	***Wedi dechrau***	***Na***
1.3.1 Oes gennych chi broffil o'ch cymunedau[10] ac ydych chi'n gwybod pa rai nad ydynt yn defnyddio'ch gwasanaethau?	Proffil			
	Yn gwybod pa rai nad ydynt yn eu defnyddio			
1.3.2 Ydych chi'n ymgynghori â'r rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr er mwyn cael syniad o'u gwerthoedd, yr hyn sy'n eu hysgogi, eu hoff bethau, eu sgiliau a'u profiadau?				
1.3.3 Ydych chi'n mynd â'ch gwybodaeth, eich adnoddau a'ch casgliadau i amrywiaeth o leoliadau a chynulleidfaoedd er mwyn ysgogi dysgu?				
1.3.4 Ydych chi'n adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau a wasanaethir gennych yn eich polisïau casglu, datblygu stociau a gwaredu?				
1.3.5 Ydych chi'n adlewyrchu anghenion a diddordebau eich cymunedau wrth ddehongli a defnyddio'ch gwybodaeth, eich adnoddau a'ch casgliadau?				

[8] Gan gynnwys adnoddau allgymorth a gwasanaethau'r we.
[9] e.e trwy glybiau astudio, grwpiau oedolion sy'n dysgu, cymunedau diddordebau arbennig ar y we
[10] Diffinnir 'cymunedau' fel defnyddwyr posibl eich gwasanaethau.

Tystiolaeth o ganlyniadau a phrosesau arfer da	*Ydym*	*Na*	Meysydd i'w gwella
Ydych chi: ➢ yn meddu ar broffil amrywiol o ddefnyddwyr presennol yr ydych yn ei gyfatebu'n rheolaidd â'r proffil cymunedau[11] ? ➢ yn berchen ar bolisïau a strategaethau ar gyfer casglu a datblygu stoc sy'n ystyried amrywiaeth y cymunedau a wasanaethir gennych? ➢ wedi cynnwys grwpiau a dangynrychiolir yn eich proses gwneud penderfyniadau? ➢ wedi defnyddio amrywiol ddulliau i ymgynghori â'r rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr a chasglu data arnynt, sy'n briodol i faint y sefydliad [12]? ➢ wedi datblygu cynllun i ehangu eich proffil defnyddiwr? ➢ wedi addasu'r hyn yr ydych yn ei wneud ar gyfer anghenion dysgu newydd[13]? ➢ wedi cyfeirio adnoddau i weithgareddau dysgu o bell ac oddi ar y safle[14]? ➢ wedi cynnwys grwpiau a dangynrychiolir mewn prosiectau i ddehongli a defnyddio gwybodaeth, adnoddau a chasgliadau? ➢ wedi ymgorffori profiadau a dehongliadau eich cymunedau mewn arddangosfeydd, rhaglenni, cynlluniau prynu, polisïau casglu, ac adnoddau ar y we? *Ydych chi'n gwybod a yw defnyddwyr newydd:* ➢ yn dysgu o ganlyniad i gyfleoedd dysgu o bell ac oddi ar y safle (dolen i'r GLOs)? ➢ yn dweud bod y profiadau a ddarperir gennych chi yn diwallu'u diddordebau ac yn berthnasol i'w bywydau? ➢ yn defnyddio'r amgueddfa, yr archif neu'r llyfrgell ac yn ymestyn eu dysgu o ganlyniad i'w cyswllt a'u profiad oddi ar y safle? ➢ yn trefnu, rheoli a chyfarwyddo rhai o'r prosiectau oddi ar y safle eu hunain? ➢ yn cael eu denu trwy eich gweithgareddau a'ch gwasanaethau ar y we?			

[11] Bydd angen i chi ddangos sut ydych yn gwybod am eich cymunedau.

[12] e.e. sgyrsiau gyda rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr; grwpiau ffocws; paneli cymunedol; arolygon ar gyfer y rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr; cyswllt â phobl mewn llety preswyl, grwpiau cymunedol, myfyrwyr anhraddodiadol, ysgolion arbennig, canolfannau dydd, hosteli, carchardai, ar y strydoedd.

[13] e.e. darparu rhaglenni dysgu o bell.

[14] e.e. canran y gyllideb, staff/gwirfoddolwyr gyda'r cyfrifoldeb hwn.

Rhestr Wirio Fanwl
Adran 1 POBL: ***Darparu cyfleoedd dysgu mwy effeithiol***

1.4 Ydych chi'n symbylu ymchwil a darganfod?

Camau Gweithredu		***Ydym***	***Wedi dechrau***	***Na***
1.4.1 Ydych chi'n datblygu, hyrwyddo a dehongli'ch adnoddau a'ch casgliadau[15] i ysgogi pobl a'u hannog i ddysgu rhagor?				
1.4.2 Ydych chi'n hwyluso pobl i ymchwilio ac archwilio'ch adnoddau a'ch casgliadau?	Ymchwilio			
	Archwilio			

[15] Rhai ffisegol a rhithwir.

Tystiolaeth o ganlyniadau a phrosesau arfer da	*Ydym*	*Na*	Meysydd i'w gwella
Ydych chi: ➢ wedi cael pobl i ddefnyddio adnoddau a chasgliadau? ➢ wedi defnyddio'ch gwybodaeth yn ddychmygus i ddatblygu a dehongli adnoddau a chasgliadau? ➢ wedi adlewyrchu materion newydd a materion sy'n codi sy'n berthnasol i bwrpas eich amgueddfa, eich archif neu'ch llyfrgell wrth ddehongli'ch adnoddau a'ch casgliadau? ➢ wedi cyflwyno safbwyntiau gwahanol sy'n galluogi pobl i ddod i'w casgliadau'u hunain? ➢ wedi darparu mynediad i wybodaeth/profiadau nad ydynt yn osgoi materion anodd neu ddadleuol? ➢ wedi datblygu arfau ymchwil[16]? ➢ wedi cydnabod cyfraniadau ymchwil unigol? ➢ wedi hwyluso pobl i ddefnyddio'ch casgliadau a'ch adnoddau ac ymchwilio iddynt? ➢ wedi sicrhau bod canlyniadau ymchwil pobl ar gael i ddefnyddwyr eraill? *Ydych chi'n gwybod a yw defnyddwyr:* ➢ yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ysgogi trafodaeth a dadl[17]? ➢ yn gallu cysylltu profiadau personol pwysig â strategaethau a chysyniadau mwy cyffredinol? ➢ yn dysgu o'r ymwneud hyn? ➢ yn dweud eu bod wedi dysgu am brofiadau, hanes a diwylliannau eraill yn sgil defnyddio'r amgueddfa, yr archif neu'r llyfrgell? ➢ yn darganfod storïau y tu ôl i'r adnoddau a'r casgliadau ac yn darganfod eu storïau eu hunain? ➢ sy'n ymwneud ag ymchwil ffurfiol yn dweud bod eu hanghenion ymchwil wedi cael eu cefnogi?			

[16] e.e. datblygiadau gwe a phorth.

[17] e.e. rhaglenni datblygu darllenwyr; sgwrsio ar y we; cynadleddau, darlithoedd a seminarau.

Rhestr Wirio Fanwl
Adran 1 POBL: *Darparu cyfleoedd dysgu mwy effeithiol*

1.5 Ydych chi'n gwerthuso canlyniadau gwasanaethau, rhaglenni a gweithgareddau?

Camau Gweithredu		***Ydym***	***Wedi dechrau***	***Na***
1.5.1 Ydych chi'n canolbwyntio ar ganlyniadau a phrofiadau dysgu[18] wrth gynllunio'r cyfleoedd dysgu a ddarperir gennych?				
1.5.2 Ydych chi'n gwerthuso a yw'r canlyniadau hyn neu ganlyniadau eraill wedi cael eu cyflawni gyda defnyddwyr, partneriaid, staff a gwirfoddolwyr?	Defnyddwyr			
	Partneriaid			
	Staff			
	Gwirfoddol-wyr			

[18] Y canlyniadau dysgu a bennir gan eich amgueddfa, eich archif neu'ch llyfrgell. Efallai bod y rhain yn gysylltiedig â'ch cenhadaeth, prosiect penodol, a/neu'r canlyniadau dysgu a ddiffinnir yn y pecyn cymorth Mesur Dysgu.

Tystiolaeth o ganlyniadau a phrosesau arfer da	*Ydym*	*Na*	Meysydd i'w gwella
Ydych chi: ➢ wedi defnyddio canlyniadau dysgu wrth gynllunio gweithgareddau dysgu ac wrth gyflwyno a/neu ddehongli adnoddau? ➢ wedi gwerthuso'r dysgu yn erbyn y Canlyniadau Dysgu Cyffredinol (GLOs) gan ddefnyddio amrediad o ddulliau[19] sy'n briodol i'r sefydliad ac sy'n sensitif i anghenion defnyddwyr[20]? ➢ wedi asesu/gwerthuso effeithiolrwydd eich gweithgareddau a'ch adnoddau dysgu? ➢ wedi seilio'r dadansoddiad o'r data a gasglwyd ar ganlyniadau dysgu? ➢ wedi defnyddio'r canlyniadau i wella'r cyfleoedd dysgu a datblygu rhai newydd? *Ydych chi'n gwybod a yw defnyddwyr:* ➢ wedi dysgu o ganlyniad i ddefnyddio'ch adnoddau a'ch gweithgareddau dysgu?			

[19] Gweler Mesur Dysgu.

[20] Dyma rai enghreifftiau: peirianweithiau sylwadau (ar-lein, cardiau/muriau); ymweliadau a arsyllir ac ar y cyd; adborth gan grwpiau/partneriaid; gwerthusiadau o arddangosfeydd; tystiolaeth dysgwyr/defnyddwyr e.e. bythau fideo, mynegiant creadigol trwy farddoniaeth, celf, cerddoriaeth, perfformiad; defnydd wedi'i fonitro o adnoddau e.e. tracio sesiynau, cofnodion gwe.